
**Adroddiad Prosiect Ymchwil ABW**

Nod y canllaw cam wrth gam hwn yw rhoi modd i Ddeiliaid Grant a Gweinyddwyr edrych ar adroddiadau cyllid crynodol byw eu prosiectau ymchwil.


I gael gweld yr adroddiadau hyn, rhaid i chi fod wedi cofrestru gyda Cyllid ABW. Mae holl staff PA wedi'u cofrestru ar Pobl Aber ac mae'r elfen gyllid yn opsiwn arall ar y ddewislen a welir ar yr un sgrin. Os nad ydych wedi cofrestru ar gyfer Cyllid ABW dilynwch y ddolen hon https://bisaccess.aber.ac.uk/cy/ gan gofrestru i gael mynediad i "Finance (ABW)", gan ofyn yn benodol am gael golwg ar eich prosiectau ymchwil, "Views on my Research Projects".

1. Dewch o hyd i borth gwe ABW trwy dudalen we systemau BIS Aber: https://abw.aber.ac.uk/BusinessWorld/Login/Login.aspx?ReturnUrl=%2fBusinessWorld%2f


2. Mewngofnodwch gyda'ch manylion mewngofnodi Aberystwyth.




3. Dewch o hyd i'r tab adroddiadau ar ochr chwith y ddewislen yn yr Hafan ('Homescreen menu'). Agorwch y ffolder Cyllid ('Finance'), yna agorwch y ffolder ar gyfer adroddiadau ymchwil ('Research Reports'). Yna dylech agor Adroddiad y Prosiect Ymchwil ('Research Project Report')




4. Teipiwch god eich prosiect yn y gell 'Project like' ac yna *, e.e., 12345*, a chwiliwch amdano trwy glicio ‘Search’.




Bydd y canlyniadau yn dangos y crynodeb canlynol:

- Cyllideb (A) yw Cyllideb y Prosiect
- Swm (B) yw'r swm a godwyd ar y prosiect hyd yn hyn
- Ymrwymiadau Heb eu Casglu (‘Outstanding Commitments’) (C) sef unrhyw Archeb Brynu (PO), ceisiadau neu anfonebau sy'n dod i mewn ac o hyd yn aros am gymeradwyaeth.
- Amrywiant (‘Variance’) (A-D) yw'r gweddill sydd ar gael i'w wario fesul llinell o gyllideb.

| Recattree (T) | Accgrp (T) | Budget (A) | Amount (B) | Outstanding Commitments (C) | Actual + Commitments (D=B+C) | Variance (A-D) | Links to reports |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Income | Research Income | -516,654.44 | -319,335.79 | 0.00 | -319,335.79 | -197,318.65 | Select link |
| Income | | -516,654.44 | -319,335.79 | 0.00 | -319,335.79 | -197,318.65 | |
| Expenditure | Pay Costs | 286,821.05 | 277,067.96 | 0.00 | 277,067.96 | 9,753.09 | Select link |
| Expenditure | Casual Pay | 0.00 | 2,164.38 | 0.00 | 2,164.38 | -2,164.38 | Select link |
| Expenditure | Equipment | 0.00 | 19,243.90 | 0.00 | 19,243.90 | -19,243.90 | Select link |
| Expenditure | Travel & Subsistence | 55,675.00 | 9,505.46 | 0.00 | 9,505.46 | 46,169.54 | Select link |
| Expenditure | Advertising & Marketing | 0.00 | 35.00 | 0.00 | 35.00 | -35.00 | Select link |
| Expenditure | General Consumables | 72,720.76 | 54,694.41 | 0.00 | 54,694.41 | 18,026.35 | Select link |
| Expenditure | Professional Fees | 16,082.84 | 2,337.92 | 0.00 | 2,337.92 | 13,744.92 | Select link |
| Expenditure | | 431,299.65 | 365,049.03 | 0.00 | 365,049.03 | 66,250.62 | |
| DA Allocati... | DA Staff | 85,354.79 | 85,354.79 | 0.00 | 85,354.79 | 0.00 | Select link |
| DA Alloca... | | 85,354.79 | 85,354.79 | 0.00 | 85,354.79 | 0.00 | |
| | | 0.00 | 131,068.03 | 0.00 | 131,068.03 | -131,068.03 | |

5. I agor yr adroddiadau, dewiswch ddolen ar ochr dde'r sgrin i gysylltu â'r adroddiadau, 'Links to reports'. Mae tri opsiwn i ddewis o'u plith:
    a. Ymrwymiadau (Commitments) sy'n cynhyrchu adroddiad i ddangos yr ymrwymiadau sy'n weddill yn erbyn y prosiect, e.e. anfonebau nad ydynt wedi'u dyrannu eto yn erbyn Archebion Prynu ac anfonebau sy'n dod i mewn ac sydd yn y llif gwaith i gael eu cymeradwyo ar hyn o bryd.
    b. Holl Drafodion y Cyfriflyfr Cyffredinol ('GL Trans (All)') sy'n cynhyrchu adroddiad gyda'r HOLL drafodion a godir i god y prosiect.
    c. Trafodion y Cyfriflyfr Cyffredinol (fesul llinell) sy'n cynhyrchu adroddiad gyda thrafodion perthnasol i'r llinell gyllideb benodol e.e. byddai'r isod yn cynhyrchu


| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Expenditure | Equipment | 0.00 | 19,243.90 | 0.00 | 19,243.90 | -19,243.90 | Select link |
| Expenditure | Travel & Subsistence | 55,675.00 | 9,505.46 | 0.00 | 9,505.46 | 46,169.54 | Select link<br>Commitments<br>GL Trans. (All)<br>GL Trans. (Per Line) |
| Expenditure | Advertising & Marketing | 0.00 | 35.00 | 0.00 | 35.00 | -35.00 | |
| Expenditure | General Consumables | 72,720.76 | 54,694.41 | 0.00 | 54,694.41 | 18,026.35 | |

adroddiad ar gyfer llinell wariant yr Offer yn unig.

6. I gynhyrchu taenlen Excel, rhaid i chi allforio'r adroddiad trwy glicio ar 'Export' ar waelod yr adroddiad.

Choose columns | Graphical presentation | Export

Yna cliciwch ar y Porwr, 'Browser [.xlsx]'. Bydd hyn yn creu fersiwn o’r adroddiad wedi ei lawrlwytho a byddwch chi'n gallu dod o hyd iddo yn eich lawrlwythiadau.




**Dehongli'r adroddiad**

Yn yr enghraifft uchod, £516,654.44 yw’r incwm sydd wedi ei gyllido ar gyfer y prosiect (Cyllideb (A)). Mae hyn yn cynrychioli cyfanswm y dyfarniad a wnaed gan y cyllidwr i'r prosiect a dyma'r ffigur a ddangosir ar y llythyr dyfarnu a/neu'r contract a gyhoeddwyd gan y corff cyllido i Brifysgol Aberystwyth. Y ffigur hwn hefyd yw gwerth y dyfarniad yn y Cyhoeddiad i Hysbysu mewnol.

Mae'r golofn Swm (B) yn dangos yr incwm gwirioneddol a dderbyniwyd hyd yma o £319,335.79. Gall hyn gynnwys arian a dderbyniwyd yn y banc ac unrhyw anfonebau a godwyd ar y prosiect ond heb eu talu eto.

Mae'r incwm a gyllidebwyd o £516,654.44 namyn yr incwm a dderbyniwyd hyd yma o £319,335.79 yn arwain at amrywiant o £197,318.65. Mae hyn yn golygu nad ydym eto wedi adennill gwerth llawn y dyfarniad. Gall fod sawl rheswm am hyn: nid yw pob anfoneb wedi'i chyflwyno, nid yw pob hawliad wedi'i wneud oherwydd bod y prosiect yn mynd rhagddo, ac ati.

**Gwariant (Uniongyrchol)**

Gofynnwn i chi roi sylw arbennig i'r categori hwn.

Mae rhes ar gyfer pob categori o wariant.

Yn yr enghraifft hon, y gyllideb ar gyfer costau Cyflog yw £286,821.05 a'r gwir gostau cyflog a godir i'r prosiect hyd yma yw £277,067.96, gan adael £9,753.09 i'w wario. Gan ddibynnu ar faint o amser sydd ar ôl gan y prosiect, a chynllun y prosiect, efallai yr hoffech drafod unrhyw danwariant gyda'ch Swyddog Cyllid Ymchwil. Yn yr un modd, byddai rhaid ymchwilio i orwariant yma hefyd.

Ystyriwch yr offer ar y prosiect. Nid oes unrhyw gyllideb, ond y gwir wariant hyd yma yw £19,243.90. Dangosir hyn drwy ddefnyddio'r arwydd minws o flaen y -£19,243.90 yn y golofn Amrywiant (‘Variance’) (A-D). Dylai hyn eich hysbysu nad ydych yn gwario o fewn penawdau'r gyllideb a neilltuwyd a dylid trafod hyn gyda'ch Swyddog Cyllid Ymchwil.

Efallai y bydd achosion lle nad yw strwythur codio ABW yn cyd-fynd â chodio'r ariannwr. Er enghraifft, efallai y defnyddir y cod ar gyfer offer i nodi prynu gliniadur trwy ABW, ond gall y cyllidwr edrych ar hyn fel pryniant traul, rhaid cymryd gofal yma wrth ddarllen yr adroddiadau hyn.

Dylid cymryd gofal i sicrhau bod yr eitemau roeddech yn disgwyl eu talu yn erbyn y prosiect yn cael eu talu, ac nad oes eitemau wedi'u camgodio ar eich prosiect. Ystyriwch geisiadau am gostau teithio, ni fyddai'r cyllidwr yn disgwyl gweld unrhyw un arall yn teithio heblaw y Prif Ymchwilydd neu'r Cyd-ymchwilwyr, staff a myfyrwyr sydd wedi'u henwi/penodi i'r prosiect. Bydd rhaid trafod unrhyw geisiadau am gostau teithio a wneir gan bobl nad ydynt yn gysylltiedig â'r prosiect.

**Costau Gorbenion Strategol**

Y costau hyn yw: Amser Staff a Ddyrannwyd yn Uniongyrchol, Cyfleusterau a Ddyrannwyd yn Uniongyrchol, Gorbenion y Brifysgol, a Gorbenion adrannau. Pan ddyfernir prosiect, mae cyfanswm y dyfarniad a roddir i'r categorïau hyn yn cael ei raglennu i Ddyddlyfr a chodir tâl cyfartal yn erbyn y prosiect bob mis dros gyfnod y prosiect.

Yn yr enghraifft hon, mae gennym gyllideb gorbenion o £85,354.79.

Mae hyn yn ymwneud yn bennaf â'r Swyddfa Cyllid Ymchwil.